

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Hydref 1af 2013 yn Neuadd Bro Derfel. Yn bresennol oedd Alwyn Jones (Cadeirydd), Eilir Rowlands, Adrian Williams, Maldwyn Jones, Tina Davies, Alwyn Roberts, Gethin Morris, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Iwan Griffiths, Gwenda Evans, Eifion Davies a Gwenda Morris.

Croesawyd Huw Antur a Lis Puw i'r cyfarfod a chafwyd diweddariad ar gynlluniau'r Bartneriaeth a Chwmni Pum Plwy Penllyn. Roedd y Bartneriaeth wedi llwyddo i sicrhau'r arian i ddiweddarau adeilad Yr Henblas ac roedd cynnig o £5,000 y flwyddyn am 5 mlynedd gan Gyngor Gwynedd tuag at redeg y cynllun. I sicrhau'r arian gan Gyngor Gwynedd roedd gofyn i'r cynghorau cymuned a thref gyfrannu arian cyfatebol. Diolchwyd iddynt am fynychu'r cyfarfod a dymunwyd yn dda i Gwmni Pum Plwy Penllyn gyda'u cynlluniau. Trafodwyd y cais am arian cyfatebol a chytunwyd i gyfrannu'r canran o arian a ofynnwyd amdano, ond am ddwy flynedd yn unig gan ail asesu'r sefyllfa ar ddiwedd yr ail flwyddyn.

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, a chafwyd hwy yn gywir.

Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

Problemau parcio ger yr Hen Swyddfa Bost, Llandderfel.

Cafwyd adroddiad bod y sefyllfa wedi gwella ers y cyfarfod diwethaf.

Pont Llandderfel ar yr B4401.

Derbyniwyd rhagor o bryderon am ddiogelwch y bont a gofynnwyd i'r clerc drefnu cyfarfod ar y safle gyda swyddog Cyngor Gwynedd. Cytunodd y Cyng. Elwyn Edwards fod yn bresennol hefyd.

Gwasanaeth bws X94, Llandderfel.

Cafwyd adroddiad gan y Cyng. Elwyn Edwards am y trafodaethau gydag Arriva ac am eu cyhoeddiad diweddaraf ynglyn a'u bwriad i gau depos a diddymu'r gwasanaeth X94 yn gyfan gwbl. Mynegodd y cynghorwyr eu pryder am effaith y datblygiadau diweddaraf yma. Cytunodd y Cyng. Elwyn Edwards i ddiweddarau'r cynghorwyr o unrhyw ddatblygiadau.

Lloches bws Frongoch.

Yn anffodus roedd y clerc wedi clywed nad oedd yn bosib i Gyngor Gwynedd ariannu'r lloches newydd ar hyn o bryd. Roedd pwyllgor y cae chwarae yn awyddus i geisio am grant i gael y lloches a chytunodd y Cyngor i'r clerc gyd weithio gyda hwy i sicrhau hyn.

Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd.

i) Derbyniwyd gwahoddiad i'r Cyngor fynychu lansiad 'Taith Tegid - Cynwyd i'r Bala', dydd Gwener 11^{eg} o Hydref yng Nghanolfan Llandrillo. Roedd y daith yn cysylltu cymunedau Cynwyd, Llandrillo a Llandderfel gyda Thref y Bala ac ariannwyd y cynllun drwy raglen Cymunedau a Natur gyda chyfraniadau gan Gynghorau Dinbych a Gwynedd. Cytunodd Alwyn Roberts fynychu'r lansiad.

ii) Derbyniwyd gwybodaeth ynglŷn â grant Llywodraeth Cymru i sefydlu gwefannau i gynghorau Tref a Chymuned. Cytunwyd i ddatgan diddordeb i dderbyn yr arian ar gyfer sefydlu gwefan ar y cyd gyda gweddill cynghorau Penllyn. Cytunwyd hefyd bod angen gwybod costau rhedeg y math yma o gynllun cyn ymrwymo.

b) Un Llais Cymru.

Llythyr yn ein hysbysu bod cyfarfod nesaf Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn cael ei gynnal yn y Pafiliwn Criced, Dolgellau ar y 25/9/13 am 7.00y.h.

c) Tai Clwyd.

Copi o'i 'Adroddiad Blynyddol 2012-13'.

Ceisiadau Cynllunio.

Derbyniwyd y cais cynllunio canlynol:-

C13/0868/04/LL – Codi 2 dyrbin gwynt 23m i'r hwb. Bryn y Ffynnon, Bethel.

Trafodwyd y cais yn drylwyr a chytunwyd i ofyn i Gyngor Gwynedd am ohiriad er mwyn sicrhau rhagor o wybodaeth. Cytunwyd i fynegi pryder y Cyngor bod y cynllun mor agos i'r safle hanesyddol Caereuni a'r diffyg gwybodaeth am unrhyw gronfa gymunedol.

Materion Ariannol.

Datganiad Blynyddol.

Derbyniwyd y Datganiad yn nol gan UHY Hacker Young gyda'r cadarnhad olaf ei fod yn gywir. Cytunwyd i arddangos y 'Rhybudd o ddiwedd yr archwiliad'.

Cynllun Diffyg yn y Cyfrif Claddu, Cyngor Gwynedd.

Roedd y clerch wedi paratoi cyfrifon y fynwent ar gyfer 2012-13.. Cytunwyd i anfon cais am ad-daliad o'r golled o £1236.83 a wnaed.

Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

- i) UHY Hacker Young
- ii) Cyflog y clerch (Gorff – Medi)
- iii) CTHEM (Gorff – Medi)